Heol Alexandra GLYNN VIVIAN

Abertawe
SA1 5DZ

+44 (0)1792 516900
glynn.vivian@abertawe.gov.uk
glynnvivian.co.uk

# Agored Abertawe 2023 – Canllawiau Cyflwyno

## – Cyflwyniad

Cystadleuaeth gelf flynyddol â thema agored yw Abertawe Agored y dewisir gwaith ohoni i'w arddangos yn yr Atriwm o'r cyflwyniadau a dderbynnir. Dewisir y gwaith gan banel gwahanol o ddetholwyr gwadd bob blwyddyn ac mae hyn yn annog amrywiaeth o safbwyntiau'n flynyddol. Mae'r arddangosfa'n ceisio adlewyrchu ymwybyddiaeth feirniadol a diwylliannol gan gynnwys amrywiaeth eang o gelfweithiau gan artistiaid proffesiynol ac amatur.

**Gall unrhyw un sy'n byw neu'n gweithio yn Ninas a Sir Abertawe yn y codau post SA1 i SA9 gyflwyno gwaith celf.**

Bydd Ffurflen Gyflwyno Abertawe Agored ar gael i'w llenwi ar-lein. Os nad oes gennych fynediad at gyfrifiadur, dewch i'r oriel o 8 Ionawr 2023, a bydd un o gynorthwywyr yr oriel yn gallu'ch helpu.

## – Gwobrau

Dewisir tri enillydd o'r ymgeiswyr sy'n cael eu dethol, gyda gwobr gyntaf o £250; ail wobr o £150 a thrydedd wobr o £100. Cyhoeddir yr enillwyr ar ddechrau'r arddangosfa.

Yn ogystal, bydd Cyfeillion Oriel Gelf Glynn Vivian hefyd yn cyflwyno gwobr am gelfwaith penodol.

## – Y Panel Dethol

Y detholwyr gwadd eleni yw'r artist gweledol, Daniel Trivedy a astudiodd celfyddyd gain yng Ngholeg Celf Abertawe ac sy'n byw yn ne Cymru ar hyn o bryd, a'r curadur a'r academydd Gillian Fox, sy'n byw yn Llundain.

Bydd Curadur yr Oriel, neu gynrychiolydd tebyg, yn bresennol, ynghyd ag arsylwr allanol.

## – Dyddiadau allweddol

- Dyddiad cau cyflwyno gwaith: 16:00 ddydd Sul 5 Ionawr 2023
- Hysbysir yr artistiaid llwyddiannus drwy e-bost: Dydd Gwener 20 Ionawr 2023
- Cyflwyno darnau o waith: Dydd Gwener 13, dydd Sadwrn 14 neu ddydd Sul 15 Ionawr 2023, 11:00–16:00
- Dyddiadau'r Arddangosfa: 28.01.23 – 16.04.23
- Dychwelyd a chasglu gwaith sydd wedi'i arddangos: Dydd Mawrth 18 neu ddydd Mercher 19 Ebrill 2023, 11:00-16:00

## – – Ceisiadau ac Amodau Cystadlu

1. Gall pob artist gyflwyno 2 ddarn o waith ar y mwyaf.

2. Rhaid i bob artist fod yn 16 oed neu'n hŷn

3. Rhaid i bob artist fyw neu weithio yn Ninas a Sir Abertawe, yng nghodau post SA1-SA9.

4. Mae ffi gystadlu o £5 fesul darn o waith yn daladwy. Os bydd artist yn cyflwyno 2 ddarn o waith, y ffi gystadlu sy'n daladwy yw £8. Bydd y ffi gystadlu'n hanner pris i ddeiliaid Pasbort i Hamdden, pàs bws, bathodynnau glas a myfyrwyr. Nid ad-delir y ffi gystadlu. Gall ffoaduriaid a cheiswyr lloches gystadlu am ddim.

5. Gofynnir i artistiaid lenwi a llofnodi Ffurflen Benderfynu wrth gyflwyno gwaith ar-lein

6. Derbynnir ceisiadau ar ffurf paentiadau, cerfluniau, darluniau, printiau, DVDs a ffotograffau. *Ni chaniateir celf berfformio*, gosodiadau* a gwydr pensaernïol* – *gweler y Canllawiau ar gyfer Diffiniadau ar y diwedd*

7. Bydd gwaith clyweledol a DVDs a ddetholir yn cael eu harddangos ar fonitorau'n unig. Nid oes isafswm hyd, ond yr hyd hwyaf a ganiateir ar gyfer pob cyflwyniad yw 20 munud, gan gynnwys teitlau a rhestr gydnabod. Bydd y terfyn amser hwn yn berthnasol i bob cyflwyniad, boed mewn un dilyniant neu nifer o ddilyniannau.

8. **RHAID** i waith fod wedi'i greu yn ystod y **2 flynedd** ddiwethaf.

9. Yr isafswm maint ar gyfer darn o waith yw 6" (183cm) mewn unrhyw gyfeiriad. Yr uchafswm maint ar gyfer darn o waith yw 6" (183cm) mewn unrhyw gyfeiriad ar draws dau ddimensiwn a 4" (122cm) ar gyfer y 3ydd dimensiwn, oherwydd maint y mynedfeydd i adeilad yr oriel. Rhaid i gyfanswm maint arddangos 'cyfres o ddarnau' gydymffurfio â'r rheoliadau hyn.

10. Gan nad oes gennym unrhyw gymorth mecanyddol yn yr oriel, rhaid i bwysau darnau o waith a gyflwynir beidio â bod yn fwy na'r hyn y gellir ei gludo i'r adeilad ar y diwrnod cyflwyno

11. Dylid cyflwyno pob darn o waith mewn ffrâm neu fel arall yn barod i'w hongian. Nid yw fframiau clipio'n dderbyniol

12. Rhaid nodi "**TOP**" ar gefn pob darn o waith er mwyn dangos pa ochr sydd ar i fyny.

**13.** Bydd un **LABEL GLYMU**, ar ddarn o linyn, yn hongian dros du blaen y gwaith, a rhaid rhoi un **LABEL GLYNU** ar gefn pob darn o waith, gan nodi enw'r artist, enw'r gwaith, y cyfrwng a'r pris gwerthu (os yw ar werth). **Sicrhewch fod y labeli hyn wedi'u cysylltu'n sownd yn y gweithiau cyn eu cyflwyno.**

14. Am resymau diogelwch **RHAID** bod gan bob darn dau ddimensiwn **BLATIAU DRYCH**. Dylid gosod y platiau drych yn union hanner ffordd ar hyd ochrau'r darn o waith. Bydd methu cydymffurfio'n peryglu'r posibilrwydd o gofrestru'r darn o waith. Rhaid bod y gwaith yn gallu cael ei sgriwio i'r wal. **PEIDIWCH Â** chynnwys cortyn i'w hongian.

15. Am resymau iechyd a diogelwch **RHAID BOD MODD ARDDANGOS** POB CERFLUN **AR BLINTH**. Os nad yw hyn yn bosib ni fyddwn yn gallu arddangos y gwaith yn yr arddangosfa.

16. Rydym yn argymell y dylai fod gan bob darn o waith rywbeth i amddiffyn y corneli, a ddylai aros yn gadarn wrth ei drafod. Os yw'r ffrâm yn gain iawn ei natur, e.e. haenau aur neu orffeniadau arbenigol, sicrhewch fod y ffrâm yn cael ei hamddiffyn yn addas, e.e. gyda thiwbiau sbwng, gan na allwn gymryd cyfrifoldeb am unrhyw ddifrod. Rhaid mynd ag unrhyw ddeunydd lapio ychwanegol o'r oriel ar yr adeg gyflwyno. Ni chedwir unrhyw ddeunydd lapio sy'n cael ei adael.

17. **NI CHAIFF POB DARN O WAITH EI DDETHOL.** Arddangosir o leiaf 80 darn o waith

18. Ni ellir rhyddhau'r gwaith a arddangosir tan ddiwedd yr arddangosfa

19. Rhaid i'r artist gadarnhau nad yw'r darnau o waith a gyflwynir yn torri hawlfraint. Mewn unrhyw achos, bydd yr artist yn indemnio Cyngor Dinas a Sir Abertawe yn erbyn yr holl golledion neu ddifrodau a allai godi wrth dorri hawlfraint sy'n deillio'n uniongyrchol neu'n anuniongyrchol o arddangos ei waith yn Arddangosfa Abertawe Agored.

– Cyflwyno Darnau o Waith

- Rhaid cyflwyno darnau o waith yn Oriel Gelf Glynn Vivian, Alexandra Road, Abertawe SA1 5DZ

- Rhaid cyflwyno'r holl geisiadau'n bersonol. Mae'r artist yn gyfrifol am gyflwyno a chasglu, boed i'r cais gael ei ddethol i'w arddangos neu beidio. Os rhoddir darn o waith i rywun arall ei gyflwyno/gasglu, rhaid iddo ddod â llythyr awdurdodi oddi wrth yr artist

- Rhaid cyflwyno darnau o waith rhwng 11:00 a 16:00 **ddydd Gwener 13, dydd Sadwrn 14 neu ddydd Sul 15 Ionawr 2023**. Ni dderbynnir gwaith cyn neu ar ôl y dyddiad hwn.

- Hysbysu

- Hysbysir artistiaid o ganlyniad y broses ddethol drwy e-bost erbyn dydd Gwener 230 Ionawr 2023 fan bellaf.

– Dychwelyd a Chasglu Darnau o Waith

- **RHAID** casglu ceisiadau nad ydynt yn cael eu dethol rhwng 11:00 a 16:00 **ddydd Gwener 20, Dydd Sadwrn 21 neu ddydd Sul 22 Ionawr 2023**

- Rhaid casglu ceisiadau a gafodd eu dethol ar ôl i'r arddangosfa ddod i ben rhwng 11:00 a 16:00 **ddydd Mawrth 18 Ebrill neu ddydd Mercher 19 Ebrill 2023**

- Codir tâl o £1 y dydd am unrhyw waith na chaiff ei gasglu yn ystod y cyfnodau casglu a hysbysebwyd, hyd at uchafswm o £100 fesul darn o waith. Sylwer mai tâl am storio yw hwn ac ni ellir gwneud unrhyw eithriadau

- Mae'r oriel yn cadw'r hawl i gael gwared ar unrhyw waith na haiff ei gasglu erbyn 30 Gorffennaf 2023

## – Gwerthu Darnau o Waith

- Gall artistiaid ddewis cynnig eu gwaith i'w werthu. Bydd yr oriel yn gyfrifol am werthu'r darnau o waith yn yr arddangosfa ar ran yr artistiaid. Cymerir comisiwn gwerth 30% (gan gynnwys TAW) ar werthiannau. Ni ellir rhyddhau'r darnau o waith tan ddiwedd yr arddangosfa

| | |
|---|---|
| e.e. Pris Gwerthu | £100.00 |
| Comisiwn 30% (gan gynnwys TAW) | £30.00 |
| Y swm sy'n daladwy i'r artist | £70.00 |

- Bydd taliadau am ddarnau o waith a werthir yn cael eu prosesu ar ddiwedd yr arddangosfa.

- Sylwer bod yr elw o werthu'r darn o waith yn cyfrannu at sicrhau bod Arddangosfa Agored Abertawe yn digwydd bob blwyddyn. Drwy brynu celfwaith drwy'r oriel rydych yn cyfrannu'n uniongyrchol at yr arddangosfa hon. Mae'r oriel yn ddiolchgar am eich cefnogaeth.

## – Yswiriant

- Y perchennog sy'n gyfrifol am ddarnau o waith a gyflwynir. Caiff y darnau o waith eu cadw'n ddiogel a'u trafod â gofal proffesiynol priodol, ond nid yw'r oriel yn derbyn atebolrwydd am golledion neu ddifrod, beth bynnag yw'r amgylchiadau, yn ystod y cyfnod storio a dethol

- Cyfrifoldeb yr artist yw trefnu'i yswiriant ei hun am y gwaith. Bydd darnau o waith sy'n cael eu dethol ar gyfer yr arddangosfa'n cael eu hyswirio gan yr oriel o'r amser dethol, sef dydd Llun, 15 Ionawr 2023, tan yr amser casglu olaf, sef 16:30, **ddydd Mercher 19 Ebrill 2023**.

## – Cyhoeddusrwydd

Mae Oriel Gelf Glynn Vivian yn cadw'r hawl i dynnu lluniau at ddibenion addysg, marchnata a chyhoeddusrwydd.

Bydd yr oriel yn hyrwyddo'r arddangosfa ar draws amrywiaeth eang o gyfryngau, gan gynnwys ein gwefan, ein cyfryngau cymdeithasol, ein pamffledi tymhorol a deunydd cyhoeddusrwydd ar gyfer yr arddangosfa (posteri/taflenni/gwahoddiadau/e-byst). Cyflwynir datganiadau penodol i'r wasg ranbarthol a chenedlaethol.

Bydd yr artist yn cadw'r hawlfraint; fodd bynnag, drwy lofnodi'r ffurflen ymgeisio, mae artistiaid yn cytuno y gellir defnyddio delweddau o'u gwaith at ddibenion hyrwyddo.

## – Canllawiau Diffiniadau* - ar gyfer gwaith na chaniateir

- Mae celf berfformio'n cynnwys, ond nid yw'n gyfyngedig i, ffurfiau celf byw a gweithgareddau celf a gyflwynir gerbron cynulleidfa fyw a allai gynnwys elfennau o gerddoriaeth, dawns, barddoniaeth a theatr.
- Mae celf osod yn cynnwys, ond nid yw’n gyfyngedig i, naill ai hongian lluniau neu drefnu gwrthrychau mewn arddangosfa, neu waith celf penodol i safle, sy'n cynnwys profiad 3 dimensiwn o gael eich amgylchynu gan waith celf.
- Mae gwydr pensaernïol yn cynnwys, ond nid yw'n gyfyngedig i, baneli gwydr lliw y mae angen golau dydd neu olau artiffisial y tu ôl iddynt er mwyn eu gwerthfawrogi.

Ar gyfer pob ymholiad arall a gwybodaeth ddefnyddiol, cyfeiriwch at y dudalen Cwestiynau Cyffredin ar wefan yr oriel.

Ar gyfer ymholiadau cyffredinol, cysylltwch â:
Gemma Mughini, Cynorthwyydd Arddangosfeydd drwy e-bostio
Gemma.Mughini@abertawe.gov.uk neu drwy'r post yn Oriel Gelf Glynn Vivian, Alexandra Road, Abertawe SA1 5DZ
**Sylwer bod yn rhaid cyflwyno pob ymholiad a gohebiaeth yn ysgrifenedig.**

## – Ffurflen Benderfynu

Gofynnir i chi lenwi ffurflen benderfynu ar-lein Bydd y ddolen ar gael ar wefan Oriel Gelf Glynn Vivian erbyn mis Rhagfyr 2022.

Sicrhewch eich bod yn darparu'r canlynol:

- Ffi fynediad
- Manylion cyswllt (enw, cyfeiriad, côd post, e-bost, rhif ffôn)
- Prawf o gôd post
- Teitl y gwaith a disgrifiad ohono
- Dyddiad y gwaith
- Cyfrwng
- Maint y gwaith
- Pris gwerthu (os ydyw ar werth)

– Rhestr Wirio Derfynol

| | |
|---|---|
| Darllenwch y Canllawiau Cyflwyno yn Nhaflen Wybodaeth Cystadleuaeth Abertawe Agored (gan gynnwys yr holl nodiadau ac amodau cystadlu) | |
| Cyn i chi greu darn o waith, sicrhewch y bydd yn cydymffurfio â'r nodiadau a'r amodau cystadlu | |
| Gwiriwch y nodiadau a'r amodau cystadlu i sicrhau eich bod wedi paratoi eich gwaith yn gywir. | |
| Llenwch y Ffurflen Benderfynu ar-lein sydd i'w chael yn https://www.glynnvivian.co.uk/whats-on/abertawe-agored-2021-2/?lang=cy | |
| Dewch â'r darn o waith i'r oriel ar y dyddiadau cyflwyno: 11:00–16:00 **Dydd Gwener 13, dydd Sadwrn 14 neu ddydd Sul 15 Ionawr 2023** | |

Rhaid defnyddio'r rhestr wirio hon ynghyd â'r nodiadau a'r amodau cystadlu a geir yn y daflen Canllawiau Cyflwyno Abertawe Agored hon.

Cyngor Celfyddydau Cymru
Arts Council of Wales

Noddir gan Lywodraeth Cymru
Sponsored by Welsh Government

Cyngor Abertawe
Swansea Council